Cynhelir cyfarfod or Cyngor ar 18fed o Fawrth, 2020 am 7.30 or gloch. Yn bresennol oedd, Llyr Jones, Medwyn Roberts, Generys Roberts, Eryl Evans, Wyn Jones a Gethin Jones. Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Lewis. Darllenwyd y cofnodion blaennorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.
Codi or cofnodion gwaith glawdd wrth Pant Mel a Cefn Ceirch dal, heb ei wneud cysylltu eto.

**Gohebiaeth**

**LLythyr ymddiswyddiad Gwenan Robinson** cafwyd llythyr ac mae camau priodol wedi ei gwneud ac yn dilyn o hynny dim ymateb felly bydd hysbysiad yn mynd fynnu yn dweud bod ni yn cyfethol ac sa da enw ymlaen.

**BDO** mae ffurflen a dogfennau am yr gwaith archwilio di dod yn ol ac mae ychydig o bwyntiau ganddynt yr hoffem i ni gymeryd sylw ohonynt. Mae r ffurflen flynnyddol wedi cael, ei cymeradwyo ai derbyn gan y Cyngor.

**Swyddfa Bost** llythyr ynglyn a chau swyddfa bost Llanfihangel G M.

**Cyngor B Sirol Conwy** Cais cynllunio Pen y Banc Llanfihangel a Tai Draw, (clerc yn datgan diddordeb ) ac felly y cadeirydd i gymeryd y cais a cysylltu gyda Cyngor Conwy os oes sylwadau.

**Ambiwlans Awyr** llythyr diolch am ein cyfraniad.

**Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy** anfoneb rent y toiledau £1.00 pasiwyd iw dalu.

**Cyflog y clerc** Pasiwyd iw dalu.

**Cefnogi pobl yr ardal** pasiwyd i ddosbarthu llythyr o gwmpas i ddatgan ein cymorth os bydd rhywun ei angen yn sgil yr virws Crono 19. Pasiwyd i nodi ar y llythyr ein bod fel cygor yn ddiolchgar o unrhyw gymorth os oes rhywun yn dymuno gwirfoddoli.

**Alan Davies** pasiwyd gofyn iddo a oes gannddo ddiddordeb eto eleni i dorri y gwair yn y ddwy fynnwent.

**Eifl Roberts** – pasiwyd gofyn eto eleni os oes ganddo ddiddordeb mewn plannu blodau yn y pentre eleni gan ofyn iddo blannu y ddau focs a wnaethbwyd gan Ian Evans yn dilyn grant or Conwy cynhaliol yn ddiweddar.

**Sgip** pasiwyd i adael y sgip yn mis mai yn dilyn yr Crono 19.

**Grant Brenig** Llyr yn hysbsu ein bod wedi bod yn llwyddiannus efo'r cais am arian felly bydd y gwaith o ddraenio y cael peldroed yn cychwyn cyn gynted a bydd y tywydd yn caniatau, ac ein bod yn barod mis Medi i geisio eto am grant i ffensio y cae.

**Lap top ir clerc** mae'r clerc wedi prynnu Laptop er mwyn gwneud gwaith y Cyngor ac y meddalwedd i fynd gydag ef.

**Un llais cymru** Tal aelodaeth o £31.00 pasiwyd iw dalu ac hefyd nodwyd y gwybodaeth sydd yn dod ynghlyn a y Crono 19.

**Enwebu i archwilio llyfrau y Cyngor** pasiwyd gofyn i Teleri Jones ymgymeryd ar gwaith eto eleni a bod Wyn Jonnes yn datgan ei ddiddordeb ac yn llenwi ffurflen am hyn.
Cafwyd anfoneb hefyd gan Teleri am wneud gwaith archwilio a gwneud cyflog y clerc- pasiwyd iw dalu.

**Cyfraniad llyfrgell Cerrig** - pasiwyd iw adael gan bod y llyfrgell ar gau yn dilyn y Crono 19.

**Cynllun gwariant 20/21** - cafwyd cynllun gwariant gan y clerc ac fe u harwyddwyd gan y cadeirydd Gethin **Jones.**

**Diffibilwr** Mae r clerc wedi agor cyfrif nawr gyda y Circuit (the national defibrillator Network) er mwyn iddi cael cofnodi ei fod yn gweithio.

Gethin Jones  Cadeirydd                                   Carol Humphreys  clerc